

## **Nodiadau siarad Undeb Cenedlaethol yr Athrawon, Cymru**

### **Pwyllgor Addysg y Cynulliad 13 Chwefror 2002.**

Diolch am y cyfle i roi sylwadau – mae ymateb cyffredinol yn NUT wedi ei gynnwys yn y datganiad ysgrifenedig, felly beth hoffwn i wneud yw rhoi persbectif athrawon yn y maes i fywyd yn y sector Cymraeg gan dynnu yn helaeth ar fy mhrofiad fy hun o weithio am bum mlynedd ar hugain mewn Ysgol Gyfun Gymraeg yn un o gymoedd y De.

Er nid wyf am olrain hanes datblygiad addysg Gymraeg, rhaid nodi y tyfiant aruthrol mewn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Ym 1974 pan ffurfiwyd yr hen Forgannwg Ganol roedd un Ysgol Gyfun yn gwasanaethu holl boblogaeth Morgannwg Ganol, De Morgannwg a Gwent – yn awr mae naw ysgol yn gwasanaethu yr un ardal. Yn naturiol i fwydo yr holl ysgolion yma mae tyfiant cyffelyb wedi digwydd yn y sector cynradd.

Dros yr holl amser yma yr un patrwm sydd wedi datblygu, bron yn ddieithriad, mor bell ag y mae adeiladau yn y cwestiwn. Os oedd adeilad sbâr ar gael, beth bynnag oedd ei gyflwr roedd hwn yn ddigon da i addysg Gymraeg. Enghraifft dda oedd ysgol gynradd, cyfrwng Saesneg, Llantrisant a gafodd ei chondemnio fel bod yn anaddas i addysg ym 1971 – adeiladwyd dwy ysgol newydd i gymryd ei lle, ond ail agorwyd yr hen ysgol fel ysgol Gymraeg – mae yno hyd heddiw. Enghraifft arall oedd Tonyrefail – yma roedd cyflwr yr ysgol Gymraeg yn ofnadwy ac adeiladwyd ysgol newydd sbon. Symudwyd plant o'r ysgol Saesneg. Roedd pawb yn y sector Cymraeg yn gorfod derbyn bod eu hamodau nhw yn eilradd, a bod yn ddiolchgar o gael unrhyw beth o gwbl – fel rhyw weithiwr haearn neu lo o'r gorffennol yn diolch am friwsionyn o disgyn o fwrdd y meist. Yn anffodus mae y patrwm yma yn parhau. Mae Ysgol gyfun Saesneg newydd e'u hagor ym Maesteg a bydd ysgol gyfun Gymraeg yn cael yr hen adeilad. Yn sicr mae rhesymau dilys yn cael eu rhoi gerbron am faint a lleoliad ond eto i gyd mae'r ddelwedd o dderbyn adeilad ail law yn parhau. Rwy yn cydnabod bod adeiladau newydd ar y gweill bellach oherwydd cyflwr truenus a chostus rhai o'r hen adeiladau sydd wedi gorfod gweithredu ar hyd a lled Cymru.

Mae adrefnu llywodraeth leol wedi dod â phroblemau yn ei sgil yn sicr yng nghymoedd y de o ran sector uwchradd – mae Rhondda Cynon Taf wedi etifeddu pedair ysgol Gyfun Cymraeg tra bod Merthyr a Phenybont wedi ei gadael heb yr un. Mae datblygu ysgol ym Mhenybont yn peri pryder, yn y byr dymor, oherwydd yr effaith ar Llanhari gan fod rhyw 60% o ddisgyblion Llanhari yn dod o sir Penybont. Oherwydd bod addysg yn cael ei drefni trwy y cynghorau sir mae yn mater o falchder dinesig i gael darpariaethau ei hun, ond ffawd y ffiniau sydd wedi achosi'r sefyllfa sydd yn bodoli. Dylai y Cynulliad a'r cynghorau drefnu a chynllunio ar lefel ranbarthol yn hytrach na sirol, am rai blynyddoedd eto, i sicrhau eu bod yn byw lan i'w bwriad o gynnig y 'Gwerth Gorau' i'r ddarpariaeth ac i'r trethdalwyr.

O ran adnoddau dysgu mae pethau wedi gwella yn sylweddol, - nid yw'r disgyblion bellach yn derbyn popeth mewn llawysgrifen borffor wedi ei baratoi gan athro ar y 'Banda' a phob athro a'i fysedd yn adlewyrchu lliw y carbon. Serch hynny mae problemau yn parhau – bellach y prosesydd geiriau a'r llungopiwr sy'n rheoli. Er bod mwy o ddefnyddiau yn cyrraedd yr ysgolion, y broblem yn aml iawn i'w eu bod yn cyrraedd y sector Cymraeg yn rhy hwyr. Yn naturiol mae'r costau yn uchel i gynhyrchu unrhyw werslyfr a does dim un cyhoeddwr preifat yn mynd i baratoi ar gyfer y sector Gymraeg er mwyn gwneud elw yn yr un ffordd ac y mae cyhoeddwyr addysgiadol mawr Lloegr yn medru gwneud. Mae defnyddiau Saesneg, fel arfer, yn gyfoes yn lliwgar a deniadol. Fel arfer yn y sector Gymraeg mae'r athro yn prynu un copi o lyfr Saesneg ac yna yn paratoi ei ddefnyddiau ei hun wedi seilio ar y syniadau. Nid yw'r cynnyrch yn cyffwrdd â diwyg proffesiynol y llyfrau Saesneg. Ar ôl peth amser yn aml blwyddyn neu ddwy mae rhyw banel yn dewis llyfr teimlant sydd yn werth ei gyfieithu. Mae mwy o amser yn mynd i ddatrys yr holl gymhlethdodau hawlraint cyn bo'r llyfr yn ymddangos yn y Gymraeg. Yn naturiol mae croeso i'r llyfr ond y mae athrawon sy'n dysgu drwy'r Gymraeg wedi rhoi oriau mawr i mewn i baratoi defnyddiau ar gyfer cyrsiau cyfan cyn i'r cyhoeddiad ymddangos. Mae hyn yn digwydd bron ym mhob ysgol Gymraeg ac felly mae'r paratoi yn cael ei ddyblygu drosodd a throsodd. Apêl sydd gen i felly i gael corff sy'n medru fod yn flaengar ac yn medru paratoi defnyddiau yn erbyn i'r cwrs ddechrau nid mewn pryd i'r ail garfan gychwyn ar y cwrs. Mae gen i bryder am ddatblygiad yn ddiweddar lle mae llawlyfrau cyrsiau arholiad yn cael ei paratoi a'u hargraffu yn Saesneg – eu cyfieithu a'u gosod ar y rhyngwyd yn y Gymraeg – llungopiö eto a diwyg eilradd i'r hyn sydd ar gael yn y Saesneg.

Gaf i dalu teyrnged yma i ACCAC a'r Cyd Bwyllgor Addysg am eu gwaith yn ymwneud â defnyddiau Cymraeg. Mae angen llawer mwy o waith ac ymateb mwy cyflym i sefyllfaoedd sydd yn newid yn gyflym. Cyllid a buddsoddiad yw'r nod. Diwedd y gan yw'r geiniog, eto.

Mae CBAC ar flaen y gad fel bwrdd arholi, ac fel Swyddog Arholiadau fy hun does gen i ddim ond canmoliaeth am eu gwaith a'u perthynas gydag ysgolion. Mae yn drueni na fyddai holl ysgolion Cymru yn rhoi fwy o gefnogaeth i CBAC. Yma eto mae y costau yn uchel iawn ac yn amlwg o orfod cyfieithu y mwyafrif o'r papurau mae hwn yn gost nad yw byrddau Lloegr yn gorfod ei wynebu, fel arfer, er ei bod yn sefydliadau llawer mwy. Cofiaf alwad ffon o Swyddog pwnc yn CBAC yn gofyn i mi gadarnhau byddai un ymgeisydd yn mynychu'r arholiad, gan taw hi oedd yr unig un i sefyll y papur drwy gyfrwng y Gymraeg. Yr un yw cost cyfieithu beth bynnag yw'r nifer o ymgeiswyr. Nid yw'r Cyd Bwyllgor yn darparu ar gyfer pob pwnc bellach yn enwedig yn achos Safon Uwch a'r arholiadau galwadigaethiol. Rhaid i ni felly fynd at fyrddau Lloegr am ein cyrsiau a'n arholiadau. Er eu bod yn ddigon parod i helpu ac yn darparu papurau yn y Gymraeg rwy'n pryderi am eu dull o farcio. Mae sgriptiau'r ymgeiswyr mewn rhai arholiadau yn cael eu cyfieithu i'r Saesneg ac yna y arholiadau trwy gyfrwng y Gymraeg. Gallaf ddeall y gwasgedd economaidd ar y Cyd Bwyllgor ond mae rhaid bod modd o gyd weithio gyda byrddau Lloegr i brynu maes llafur a'r papurau cwestiwn ond bod gweddill y broses yn digwydd o dan reolaeth CBAC.

Er bod na welliannau aruthrol wedi digwydd ers i mi ddechrau gweithio yn y sector Gymraeg, mae newidiadau cyflym ym myd addysg wedi golygu nad ydyn yn dal i fyny. Mae datblygiad cyflym Technoleg Gwybodaeth yn gymorth ond ar lawr y dosbarth y llyfr a'r gair ysgrifenedig ar bapur sy'n dal i reoli a bydd yn rheoli am nifer o flynyddoedd eto. Mae angen cymorth ar y sector Gymraeg, nid er mwyn achub mantais ar y sector Saesneg ond er mwyn cadw i fyny gyda nhw. Mae'r farchnad adnoddau Saesneg yn ddigon mawr i gynnal cwmnïau preifat ond heb gymorth sylweddol nid yw hynny yn bosibl yn y Gymraeg.

Rwy'n ymwybodol mae pigo ar rai materion yn unig yr wyf wedi wneud yma ac o safbwynt addysg cyfrwng Cymraeg a hynny yn y sector uwchradd. Mae nifer o faterion eraill sydd nawr yn dechrau dod i'r wyneb, fel prinder athrawon pwnc mewn rhai meysydd, ond nid yw amser yn caniatáu dilyn y trywydd yna ymhellach. Mae Cymraeg fel ail iaith, wrth gwrs, yn faes llawn ynddo ei hun.

## 1. Rhan allweddol HACA yn y broses

Hoffwn ategu'r hyn a ddywedwyd gan gynrychiolydd UCET Cymru a thanlinellu'r rhan allweddol sydd gan y sector Hyfforddiant ac Addysg cychwynnol Athrawon i'r themâu sydd gennych dan sylw sef datblygu addysg ac hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a darparu cyfleoedd i blant ac i bobl o bob oed i ddysgu'r iaith.

Buaswn i hefyd yn ychwanegu at hynny y rôl sydd gennym yn y gwaith o feithrin dwyieithrwydd effeithiol yng Nghymru.

## 2. Pam fod gennym ran mor allweddol?

Mae'n amlwg, gredwn ni, na fydd y cynnydd a'r llwyddiant presennol sy'n bod o ran dysgu'r Gymraeg fel ail iaith yn yr ysgolion ac yn y sector addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau oni cheir to ar ôl to o athrawon cymwys sydd wedi eu hyfforddi'n benodol ar gyfer y gwaith ac sydd â'r sgiliau ieithyddol angenrheidiol eu hunain.

Mae'r sector ni yn ddolen gyswllt bwysig iawn, iawn er sicrhau parhad y cylch – y continuum hwnnw – sydd ei angen er mwyn sicrhau datblygiad llwyddiannus polisïau iaith mewn addysg o'r cynradd i'r uwchradd – i addysg bellach ac addysg uwch – ac i fwydo'n ôl i mewn i'r ysgolion unwaith eto.

## 3. Her ein gwaith

Mae'n gwaith ni yn heriol am nifer o resymau:

- ◆ yn gyntaf, (fel soniodd cynrychiolydd UCET) mae'n anodd i ddenu digon o bobl ifanc sydd am fod yn athrawon ail iaith neu gyfrwng Cymraeg, yn arbennig mewn rhaid pynciau, gan gynnwys y Gymraeg ei hunain.
- ◆ yn ail, oherwydd y diffyg parhad sy'n bodoli ar hyn o bryd mewn addysg Gymraeg rhwng y cynradd a'r uwchradd ac addysg bellach ac uwch, a'r sefyllfa ieithyddol gymhleth sy'n bodoli yng Nghymru, mae'r bobl ifanc hynny sy'n ddigon hyderus ac yn ddigon rhugl a chywir eu hiaith i fentro i'r sector Gymraeg yn gyfyngedig.

Mae'n rhaid i ni ddarparu, nid yn unig ar gyfer y myfyrwyr hynny sy'n dymuno'n gryf, neu'n mynnu'r hawl i gael eu paratoi ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg, ond hefyd ar gyfer y rheini sydd, er yn dymuno dysgu mewn ysgol Gymraeg, yn ddihyder o ran cyflwyno'r iaith i eraill. Mae'n bwysig ein bod ni'n eu helpu i wella eu sgiliau yn yr iaith ac i gryfhau eu hyder fel nad ydynt yn cael eu colli i'r ysgolion cyfrwng Saesneg.

Y'n ni hefyd, wrth gwrs, yn paratoi myfyrwyr sydd yn ddysgwyr da i ddod yn arweinwyr cwricwlwm Cymraeg mewn ysgolion Saesneg.

## 4. Prosiect ESCalate

Rwy'n aelod o brosiect bychan o dan nawdd Escalate – y ganolfan pwnc Addysg er hyrwyddo addysgu a dysgu – sy'n ystyried datblygiad addysgu dwyieithog mewn sefydliadau Hyfforddiant ac Addysg Cychwynnol Athrawon drwy Gymru.

Mae'r prosiect yn cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o Gymru.

Yr hyn sy'n amlwg o'r gwaith a wnaethpwyd hyd yma yw:

- fod anghenion myfyrwyr yn gwahaniaethu oherwydd eu cefndir addysgol ac ieithyddol
- fod cyd-destun ieithyddol yr ysgolion lle byddant yn mynd i ddysgu yn y pen draw yn amrywio o ardal i ardal

o ganlyniad, mae'r modd y mae'r sefydliadau'n cwrdd a'r anghenion yn gwahaniaethu hefyd, ac mae ystod o drefniadau gan y gwahanol sefydliadau gan ddibynnu ar eu sefyllfaoedd unigryw.

Y math o ffactorau sy'n effeithio arnom yw:

- amrywiaeth o flwyddyn i flwyddyn yn niferoedd y myfyrwyr sydd am ddysgu yn y sector cyfrwng Cymraeg yn y gwahanol bynciau – ac o sefydliad i sefydliad
- amrywiaeth yn natur a hyd y cyrsiau
- amrywiaeth yn rhugledd a rhwyddindeb y myfyrwyr yn y Gymraeg, ac i raddau yn y Saesneg hefyd
- nifer y darlithwyr a'r tiwtoriaid sydd yn medru'r Gymraeg neu'n ddigon hyderus i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac sy'n abl neu sydd â'r ewyllys i ddarparu deunyddiau dysgu dwyieithog
- gwahaniaethu mewn cyllido ac weithiau prinder arian er sicrhau staff ac adnoddau i gwrdd a'r gofyn ac i ehangu'r ddarpariaeth.

Mae'r prosiect bychan dan nawdd ESCalate wedi dechrau adnabod y gofynion ac wedi dechrau ymchwilio i ffyrdd o gwrdd a'r her sydd gennym Er enghraifft,

- i chwilio am gyfleoedd i ddatblygu addysgu dwyieithog yn y sector – h.y. lle mae sesiynau dysgu yn digwydd yn y ddwy iaith a'r myfyrwyr cyfrwng Cymraeg a'r Saesneg yn cael eu dysgu ar y cyd – er nad yw hyn yn briodol bob amser wrth gwrs
- i chwilio am ffyrdd llwyddiannus o ddefnyddio technoleg gwybodaeth i geisio gwella ac ehangu'r ddarpariaeth
- i ddechrau pwysu am ragor o ymchwil i'r ffyrdd ymlaen yn y dyfodol – er mwyn helpu sefydliadau i gynllunio'n fwy effeithiol ac i gwrdd a'r ystod o anghenion sy'n bodoli

5. Wrth edrych i'r dyfodol:

Rydym yn anelu at hyfforddi ac addysgu athrawon cwbl ddwyieithog – athrawon sydd â'r sgiliau angenrheidiol i fedru gwneud cyfraniad i ddatblygiad cynnydd a pharhad dysgu ail iaith, dwyieithog a chyfrwng Cymraeg ac i helpu i gyfrannu'r cylch at y dyfodol. Mae mawr angen felly:

- denu'r myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg i ddod yn athrawon
- eu cynorthwyo i gaffael y sgiliau penodol sydd eu hangen yn y Gymraeg er mwyn bod athrawon iaith effeithiol ar draws ystod bynciau
- sicrhau fod gan y sefydliadau y staff a'r adnoddau i fedru cwrdd a'r her sydd o'n blaen.

(Saesneg yn Unig)

TABLE 23 Recruitment to initial teacher training courses (a), 1997/98 - 2001/02

	ENGLAND AND WALES					Percentage change 2000/01 - 2001/02
	1997/ 98	1998/ 99	1999/ 00	2000/ 01	2001/02( b)	
<b>Overall</b>	No.	No.	No.	No.	No.	%
Undergraduate	10,455	9,643	9,335	8,952	8,664	-3
Postgraduate	19,471	18,781	18,876	21,188	22,708	7
<b>Total</b>	29,926	28,424	28,211	30,410	31,372	4
<b>Primary</b>						
Undergraduate	7,801	7,444	7,374	7,323	7,106	-3
Postgraduate	5,214	5,639	6,001	7,117	7,172	1
<b>Total</b>	13,015	13,083	13,375	14,440	14,278	-1
<b>Secondary</b>						
Undergraduate	2,654	2,199	1,961	1,629	1,558	-4
Postgraduate	14,257	13,142	12,875	14,071	15,536	10
<b>Total</b>	16,911	15,341	14,836	15,700	17,094	9
Mathematics	1,538	1,190	1,390	1,390	1,627	17
English and Drama	2,255	2,249	2,154	2,172	2,385	10
Science	2,941	2,416	2,512	2,581	2,757	7
Modern Foreign Languages	1,887	1,740	1,567	1,746	1,812	4
Welsh	49	46	44	64	43	-33
Technology(c)	2,086	1,841	1,824	2,031	2,341	15
History	1,043	983	884	989	995	1
Geography	904	791	916	957	1,082	13
Physical	1,725	1,580	1,287	1,303	1,420	9

Education						
Art	962	954	853	919	913	-1
Music	546	533	552	605	687	14
Religious	675	659	566	621	620	0
Education						
Other (d)	300	359	287	322	412	28

Source: DfES, TTA, Higher Education Funding Council for Wales

- a) These figures do not include those people recruited onto employment based routes into teaching.
- b) 2001/02 recruitment numbers are the latest provisional figures for the whole academic year.
- c) Technology includes design & technology, information & communications technology & business studies.
- d) Other includes citizenship, classics, economics, other social sciences and other subjects.



## Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru - Arolwg Recriwtio Athrawon: Ysgolion Uwchradd: Rhagfyr 2001

### Recriwtio i Swyddi Uwchradd, Ionawr – Awst 2001

Gofynnodd yr arolwg i ymatebwyr ystyried pob swydd yn y saith maes pwnc yn yr arolwg a hysbysebwyd yn y cyfnod 1 Ionawr i 31 Awst 2001. Roedd y cwestiwn hwn yn berthnasol i swyddi dysgu Cyfnod Allweddol 3, 4 ac uwch. Gofynnwyd i ymatebwyr ynglyn â nifer yr ymgeiswyr ar gyfer y swyddi a hysbysebwyd, a oedd yn bosibl penodi o'u mysg ac a oedd angen dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Pwrpas y cwestiwn oedd datgelu a oedd problemau ynglyn â denu athrawon i ymgeisio am swyddi yn y meysydd pwnc a nodwyd oedd yn "annodd recriwtio" ar eu cyfer. Rhoddwyd cyfarwyddid i ymatebwyr gynnwys pynciau oedd yn cynnwys cyfuniad o unrhyw rai o'r saith pwnc gyda phwnc arall nad oedd wedi'i restru.

Gofynnwyd y cwestiwn canlynol i ymatebwyr:

*"Mewn perthynas ag unrhyw swyddi a hysbysebwyd rhwng y cyfnod 1 Ionawr i 31 Awst 2001, llenwch y bocsys a ddarparwyd i nodi nifer y ceisiadau a dderbyniwyd ar gyfer swyddi a hysbysebwyd ac y penodwyd iddynt. Rhestrwch y pynciau hynny yn y cyfarwyddyd a roddwyd".*

### Pob swydd

Mae'r tabl isod (tabl 1) yn rhoi manylion am nifer y swyddi a hysbysebwyd a nifer y ceisiadau a dderbyniwyd ym mhob pwnc. Gellir gweld fod nifer yr ymgeiswyr fesul swydd ar gyfer y pynciau a gynhwyswyd yn yr arolwg yn lled isel ar y cyfan, gyda chyfartaledd o 6.5 o ymgeiswyr fesul swydd. Mewn pynciau arbennig megis Ffiseg a Chymraeg 2il Iaith, mae cyfartaledd yr ymgeiswyr mor isel â 3.8 a 4.5 yn ôl eu trefn. Yn achos 19 o swyddi, ni chafwyd yr un ymgeisydd.

**Tabl 1**

Pwnc	Nifer y swyddi a hysbysebwyd	Nifer y ceisiadau a dderbyniwyd	Nifer y ceisiadau a dderbyniwyd ar gyfartaledd	Nifer y swyddi lle na dderbyniwyd ceisiadau
Cemeg	24	197	8.2	0
Saesneg	90	713	7.9	0
Mathemateg	105	641	6.1	5
Ieithoedd Tramor				
Modern	48	403	8.4	1
Ffiseg	44	169	3.8	1
Addysg	32	184	6.1	4

Grefyddol				
Cymraeg 2il Iaith	63	283	4.5	5
Gwyddoniaeth	37	276	7.5	2
<b>Cyfanswm</b>	<b>443</b>	<b>2866</b>	<b>6.5</b>	<b>19</b>

Er y penodwyd ar ôl hysbysebu mewn 80 i 95% o achosion, ar gyfer y swyddi a hysbysebwyd, mae rhywfaint o amrywiaeth yng nghanran y swyddi hyn lle gwnaed penodiad (tabl 2). Er enghraifft, dim ond 78.1% o swyddi Addysg Grefyddol a lenwyd o'u cymharu â 95.8% o swyddi Cemeg.

**Tabl 2**

Pwnc	Nifer y swyddi hysbysebwyd	Nifer y swyddi lle gwnaed penodiad	Nifer y swyddi lle na wnaed penodiad	Nifer y swyddi lle na nodwyd a wnaed penodiad	% y swyddi lle gwnaed penodiad
Cemeg	24	23	1	0	95.8%
Saesneg	90	77	13	0	85.6%
Mathemateg	105	96	9	0	91.4%
Ieithoedd Tramor					
Modern	48	42	6	0	87.5%
Ffiseg	44	35	9	0	80.0%
Addysg	32	25	6	1	78.1%
Grefyddol					
Cymraeg 2il Iaith	63	53	10	0	84.1%
Gwyddoniaeth	37	34	3	0	91.9%
<b>Cyfanswm</b>	<b>443</b>	<b>385</b>	<b>57</b>	<b>1</b>	<b>86.9%</b>

### **Swyddi lle'r oedd gofyn i ymgeiswyr ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg**

O ran swyddi lle roedd angen dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, mae'r sefyllfa yn achosi mwy o bryder, gyda nifer o bynciau'n dangos nifer isel iawn o ymgeiswyr ar gyfer y swyddi a hysbysebwyd (tabl 3).

Er bod nifer y swyddi yn llai nag ar gyfer y sector Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd a bod angen pwylllo wrth ddehongli ffigyrau, serch hynny, mae'n achosi cryn bryder bod cyn lleied o ymgeiswyr ar gyfer swyddi trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Tabl 3**

Pwnc	Nifer y swyddi a hysbysebwyd	Nifer y ceisiadau a dderbyniwyd	Nifer y ceisiadau ar gyfartaledd a dderbyniwyd
Cemeg	2	7	3.5
Saesneg	8	23	2.9
Mathemateg	18	45	2.5
Ieithoedd Tramor Modern	10	28	2.8
Ffiseg	8	10	1.3
Addysg Grefyddol	4	23	5.8
Cymraeg 2il Iaith	30	151	5.0
Gwyddoniaeth	6	25	4.2
<b>Cyfanswm</b>	<b>86</b>	<b>312</b>	<b>3.6</b>

*Sylwch: Gellir egluro'r gwahaniaeth yn nablau 3 a 5 ar gyfer Cymraeg 2il Iaith gan y gofynion ar ysgolion dwyieithog i ddarparu addysgu Cymraeg 2il Iaith i'r rheiny o gefndir Saesneg.*

Ar gyfer y swyddi a hysbysebwyd, ceir amrywiaeth hefyd yng nghanran y swyddi hyn lle gwnaed penodiad (tabl 4). Er enghraifft, dim ond 75.0% o swyddi Addysg Grefyddol a Ffiseg a lenwyd o'u cynharu â phob swydd Cemeg a Saesneg. Fodd bynnag, wrth ddehongli'r canlyniadau canran yn nhabl 4, dylid sylwi eto, yn gyffredinol, mai nifer fach o swyddi sy'n cael eu hystyried.

**Tabl 4**

Pwnc	Nifer y swyddi hysbysebwyd	Nifer y swyddi lle gwnaed penodiad	Nifer y swyddi lle na wnaed penodiad	% y swyddi lle gwnaed penodiad
Cemeg	2	2	0	100%
Saesneg	8	8	0	100%
Mathemateg	18	16	2	88.9%
Ieithoedd Tramor Modern	10	10	0	100%
Ffiseg	8	6	2	75.0%
Addysg Grefyddol	4	3	1	75.0%
Cymraeg 2il Iaith	30	26	4	86.7%
Gwyddoniaeth	6	5	1	83.3%
<b>Cyfanswm</b>	<b>86</b>	<b>76</b>	<b>10</b>	<b>88.4%</b>